Ardal gloddio

Trosolwg

Mae ardal gloddio'n hybu datblygiad plant ar draws amrywiaeth o feysydd. O ddatblygu sgiliau corfforol i wella sgiliau cyfathrebu, bydd y plant yn cael profiad o archwilio'n ymarferol â deunyddiau naturiol.



Trefnu

Defnyddiwch fan hygyrch a diffiniwch ffiniau'r ardal yn glir. Gallech ddefnyddio teiars neu drawstiau i wneud hynny. Dewiswch y deunyddiau naturiol y bydd y plant yn cloddio ynddynt, e.e. tywod, pridd, rhisgl, graean, gan ystyried yn ofalus pa un sydd orau i oedran y plant a fydd yn defnyddio'r ardal.

Sicrhewch fod digon o'r deunydd ar gael i'ch archwilwyr bach ei rofio, ei gloddio a'i gludo wrth iddynt chwarae

Offer

- Deunyddiau naturiol, e.e. tywod, graean, pridd, rhisgl
- Set o fwcedi mewn amrywiaeth o feintiau
- Set o rofiau, sgwpiau, rhacanau a hidlwyr, mewn amrywiaeth o feintiau
- Whilberi, tryciau byd bach

Rhyngweithio allweddol

Chwaraewch ochr yn ochr â'r plant, gan ddilyn eu harweiniad nhw a siarad am yr hyn sy'n digwydd yn yr ardal. Er enghraifft, "Rwyt ti wedi llenwi'r bwced i'r ymylon." Gofynnwch gwestiynau megis, "Pa beiriant cloddio sydd orau i symud y tywod?"

Deilliannau dysgu

- Chwarae actif – chwarae'n annibynnol, rhoi prawf ar syniadau, dewis adnoddau Archwilio corfforol a synhwyraidd
- Datblygu sgiliau meddwl yn greadigol ac yn feirniadol
- Datblygu sgiliau cyfathrebu

Symud y dysgu yn ei flaen:

- Deunyddiau naturiol ychwanegol, e.e. brigau mawr, sleisiau pren, boncyffion bach
- Clorian Amrywiaeth o fowldiau ar gyfer deunyddiau
- Teganau byd bach, e.e. deinosoriaid, ceir